**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi ac Isadeiledd

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 20 Medi 2018 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| P Downing | M A Langstone | P Lloyd |
| P M Matthews | T M White | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Caritas Adere | Uwch-gyfreithiwr |
| Mark Barrow | Rheolwr y Cerbydlu |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol:**
Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth
Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: P R Hood-Williams and W G Lewis

---

## 24 Datganiadau o ddiddordebau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 25 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi'r Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 16 Awst 2018 fel cofnod cywir.

## 26 Cerbydlu Gwyrdd

Cyflwynodd Rheolwr y Cerbydlu'r Polisi Cerbydlu Gwyrdd a rhoddodd drosolwg o'r cefndir, y datganiad polisi a chwmpas, strategaethau cerbydlu gwyrdd, defnyddio cerbydau a thargedau'r cerbydlu gwyrdd, monitro a llywodraethu.

Ailadroddodd y Cyfarwyddwr Lleoedd yr ystyrir y 'cerbydlu llwyd' fel adendwm i'r polisi hwn yn hwyrach.

Trafododd yr aelodau gostau lorïau sbwriel trydan; treialu ail-lenwi hydrogen ym Mhrifysgol Abertawe a rhannu arfer gorau'r cyngor gydag awdurdodau lleol eraill.

Nododd y Cyfarwyddwr Lleoedd y gofynnir am farn yr aelodau mewn perthynas â manylebau a dewis o gerbydau a nodwyd ym mharagraff 3.4. Cadarnhaodd bod y broses yn cynnwys y broses dendro ac ymrwymiad y cyngor i dreialu cyn caffael.

Cyfeiriodd Rheolwr y Cerbydlu at y 'gyfundrefn llogi achlysurol' a allai fod yn gostus, gan ddibynnu ar bwysau'r cerbyd. Cadarnhaodd fod y cyngor yn aelod o 'Fframwaith Prydlesu Cerbydau Cymru Gyfan' ac felly'n elwa o gael costau prydlesu is.

Diolchodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni i'r swyddogion am eu hymrwymiad i'r Strategaeth Cerbydlu Gwyrdd.

**Penderfynwyd:**

1. **cytuno** ar feini prawf y Cerbydlu Gwyrdd a restrir ym mhwynt 3.5 yr adroddiad,
2. diwygio'r adroddiad er mwyn cynnwys y rhaglen waith a'r targedau dros y 12 mis nesaf a'i gyflwyno i'r pwyllgor ym mis Hydref cyn ei gyflwyno i'r Cabinet; a
3. bydd Rheolwr y Cerbydlu'n dosbarthu dogfen dyfarnu contractau safonol i'r aelodau er gwybodaeth.

## 27 Adborth o ymweliad safle - Coridor yr Afon ar 20/08/18.

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi dysgu llawer yn ystod yr ymweliad a nododd y materion allweddol canlynol:

- Roedd gan y staff ar y ddwy daith afon wybodaeth hanesyddol ardderchog.
- Mae angen sicrhau bod yr ardal yn cael ei chydnabod fel coridor bywyd gwyllt a bod ganddi rinweddau ecolegol allweddol.
- Mae cyfleoedd ar gael i berchnogion tir ac asiantaethau preifat, ac mae ganddynt ddiddordeb ynddi ac maent yn hapus i ymrwymo iddi.
- Mae angen sicrhau nad yw ochr ddwyreiniol yr afon yn cael ei hanwybydddu.
- Mae cyfleoedd ar gael i storfeydd yr amgueddfa.

Trafododd y Cyfarwyddwr Lleoedd y grantiau posib a allai fod ar gael sy'n gyfle i adfer ac agor canolfan ymwelwyr addysgol. Nododd y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â pholisïau cadw a chylchdroi yn storfeydd yr amgueddfa.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1. Bydd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn anfon neges i hysbysu am Weithdy Coridor yr Afon a drefnir ar gyfer dydd Llun, 22 Hydref 2018 rhwng 12.30pm a 2.30pm yn Ystafell Bwyllgor 1, Canolfan Ddinesig
2. Bydd aelodau'n ystyried materion penodol i'w trafod yn y gweithdy.
3. Bydd y Cyfarwyddwr Lleoedd yn trafod hygyrchedd a pholisïau cadw a chylchdroi yn storfeydd yr amgueddfa gyda Phennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol.

**28 Cynllun Gwaith 2018/2019**

**Penderfynwyd** cytuno ar y diwygiadau i gynllun gwaith 2018 – 2019 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 18/10/18 | 1. Cerbydlu Gwyrdd.<br>2. Tai Cydweithredol (bydd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo yn bresennol).<br>3. Troi Stryd y Gwynt yn Ardal i Gerddwyr - Adborth o'r Ymgynghoriad ar 14/09/18. (bydd Rheolwr Canol y Ddinas yn bresennol) |
| 15/11/18 | 1. Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer (bydd Aelod y Cabinet dros Dai ac Ynni yn bresennol).<br>2. Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd. |
| 13/12/18 | 1. Strategaeth Trafnidiaeth. |

Daeth y cyfarfod i ben am 3.05pm

**Cadeirydd**